COVID-19 Update: 1st June

In today's COVID-19 update from Cardiff Council: creating a ‘Safer Cardiff’ for both residents and workers travelling into the city centre once the current lockdown restrictions are lifted; bulky waste collections service resumed for limited items only; and volunteers across Cardiff are being celebrated this week, including the 1,200 strong Together for Cardiff force who have stepped into the breach during the city’s time of need.

Work to create a ‘Safer Cardiff’ city centre begins

Cardiff Council is investigating how it can work with partners to create a ‘Safer Cardiff’ for both residents and workers travelling into the city centre once the current lockdown restrictions are lifted.

Plans for Castle Street in the city centre and a pilot scheme for Wellfield Road, in Roath, have already been announced with a traffic lane cleared on Castle Street for cyclists and pedestrians.

Now discussions are underway which could see roads, footways and public space on Queen Street, St Mary Street, The Hayes and Churchill Way remodelled as well as other major footfall areas in the city centre. The council is also looking at introducing specific measures to help support businesses, including making some of the public realm available to restaurants in the city centre whose floor space will be restricted by social distancing measures.

The council is working with For Cardiff, which represents businesses in the city centre, and Arup a recognised technical expert on redesigning cities. The plans will be designed to ensure the safety of the public and to help businesses get up and running during the recovery period.

Cardiff Council Leader, Cllr Huw Thomas, said: “We are all living in extraordinary times and as the council continues to respond to the current issues during this pandemic, we also have to plan on how we are going to recover from this crisis once the lockdown has been lifted.

“We now have to look at how we can re-model the public space in the city centre and implement effective plans to ensure that social distancing measures can be maintained for everyone's safety. Not only that – we have to find ways of making the city a great place to visit again, despite any restrictions which may have to be imposed.

“Clearly lots of people will still have concerns when lockdown is lifted, so we want to make sure when people think about Cardiff they think ‘yes, I know it’s safe to visit, safe to shop, safe to do business and it’s safe for me and my family to be there.’ We will work with experts in the field, consulting with businesses and residents who live in the city centre. It’s this ‘One City’ approach, which will enable us to Restart, Recover and Renew Cardiff. I’m determined we won’t miss the opportunities that could arise from this. We all want a safer, greener, cleaner and healthier city, one which will be sustainable in the long term.

“All of this will cost money which is why we will begin discussions with Welsh Government on how it can be funded. Cardiff is the economic heartbeat of Wales. It can’t be left on life support. Our plans will need to be fully backed if we are to get the city up and running again for the benefit of everyone who lives and works here and in the city region.”

You can read the full story here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23983.html

Bulky Waste Collections Service resumed for limited items only

Bookings for bulky waste collection service resumes for limited items today.

We’re asking that residents please only book collections for items that are causing you significant difficulty to store at home.

The bulky waste collection is for larger items, that you would be unable to fit in the boot of your car to bring to our Recycling Centres at Lamby Way or Bessemer Close.

We do not charge to collect items that are fully recyclable:

- ✓ Wooden dining table or bookshelf
- ✓ Metal bed frame or shelving unit
- ✓ Large electrical appliances such as a fridge or washing machine
- ✓ Carpet
- ✓ UPVC windows and frames
- ✓ Spring mattresses (there is a charge for memory foam)

We charge to collect items made from a mixture of different materials:

- ✓ Sofas and armchairs
- ✓ Divan bed bases
- ✓ Memory foam mattresses (spring mattresses are free)
- ✓ Furniture made from a mixture of materials such as a wooden cabinet with glass doors.

We are unable to collect some items, these include:

x Asbestos
x Fibreglass
x Building materials and building waste, such as plasterboard or insulation material
x Car or engine parts
x Cast iron items
x Chemicals, such as paint stripper
x Fluorescent tubes Gas bottles or canisters
x Oil (engine or cooking)Tins of paint
x Tyres
x Pianos

x Garden waste

You can book a collection by contacting C2C on (029) 2087 2087. Our social media channels are also able to book collections for **free items only -** #quickquerycardiff- the team will ask you for all information needed, in a direct message.

If you need to book a collection sooner than the next available date, our Commercial Services team have a number of options available for which there is a charge.

They can do single item collections or you can hire a skip. Please email commercial.services@cardiff.gov.uk for a free no obligation quote.

Please be advised **we will not collect while you, or someone in your household is symptomatic with COVID-19**.

For more information, please visit: www.cardiff.gov.uk/bulkywaste

Volunteers Week: Time to say thanks

Volunteers across Cardiff are being celebrated this week, including the 1,200 strong Together for Cardiff force who have stepped into the breach during the city's time of need.

During annual Volunteers Week celebration (June 1-7), the Council is taking the opportunity to thank everyone who volunteers, especially those who have supported the city's efforts to look after those in need during the lockdown period.

The Together for Cardiff scheme was set up by the Council at the onset of the COVID-19 emergency and residents across the city responded in their droves to help others throughout this difficult time.

Cabinet Member for Housing and Communities, Cllr Lynda Thorne, said: "This year, Volunteers' Week falls at a time of crisis, when the global pandemic has dramatically affected the lives of individuals and communities, when neighbours, community members and local volunteers have become more important than ever to supporting those in need.

"So more than ever before, it is important to recognise the contribution that volunteers make, both during this crisis and every day in our city. Thank you. You have done an amazing job and make us proud."

More than 1,200 are now registered with the Together for Cardiff scheme that has acted as a brokering service, matching people who want to help with volunteering opportunities across the city, including support for council teams to provide essential services for those in need.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23979.html

Diweddariad COVID-19: 1 Mehefin

Yn y diweddariad ar COVID-19 a gafwyd heddiw gan Gyngor Caerdydd: gwaith yn dechrau yng Nghaerdydd i greu canol dinas diogelach; ailddechrau'r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus ar gyfer rhai eitemau yn unig; a'r wythnos hon, rydyn ni'n dathlu gwirfoddolwyr o bob rhan o Gaerdydd, gan gynnwys criw Gyda'n gilydd dros Gaerdydd sy'n 1,200 o bobl, a ddaeth i lenwi'r bwlch pan oedd angen ar y ddinas.

Gwaith yn dechrau yng Nghaerdydd i greu canol dinas diogelach

Mae Cyngor Caerdydd yn ymchwilio sut y gall weithio â phartneriaid i greu 'Caerdydd Ddiogelach' ar gyfer trigolion a gweithwyr sy'n teithio i ganol y ddinas ar ôl codi'r cyfyngiadau presennol.

Mae cynlluniau ar gyfer Stryd y Castell yng nghanol y ddinas a chynllun peilot ar gyfer Wellfield Road, yn y Rhath, eisoes wedi'u cyhoeddi gyda lôn draffig wedi'i chlirio ar Stryd y Castell ar gyfer beicwyr a cherddwyr.

Bellach mae trafodaethau ar waith a allai ailfodelu ffyrdd, troedffyrdd a mannau cyhoeddus ar Heol-y-Frenhines, Heol Eglwys Fair, Yr Aes a Ffordd Churchill yn ogystal ag ardaloedd prysur eraill yng nghanol y ddinas. Mae'r cyngor hefyd yn ystyried cyflwyno mesurau penodol i helpu busnesau, gan gynnwys rhoi rhywfaint o dir cyhoeddus ar gael i fwytai yng nghanol y ddinas y caiff eu harwynebedd llawr ei gyfyngu gan fesurau ymbellhau cymdeithasol.

Mae'r cyngor yn gweithio gyda Chaerdydd AM BYTH, sy'n cynrychioli busnesau yng nghanol y ddinas, ac Arup sy'n arbenigwr technegol cydnabyddedig ym maes dylunio dinasoedd. Caiff y cynlluniau eu dylunio i sicrhau diogelwch y cyhoedd ac i helpu busnesau i ailagor a chael eu traed oddi tanynt yn ystod y cyfnod adfer.

Dywedodd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd: "Rydyn ni i gyd yn byw mewn cyfnod rhyfedd iawn ac wrth i'r cyngor barhau i ymateb i'r problemau presennol yn ystod y pandemig, mae angen i ni hefyd gynllunio ein hadferiad pan gaiff y cyfyngiadau eu codi.

"Rhaid i ni nawr edrych ar sut y gallwn ni ailfodelu'r mannau cyhoeddus yng nghanol y ddinas a rhoi cynlluniau effeithiol ar waith i sicrhau y gallwn gynnal y mesurau ymbellhau cymdeithasol er diogelwch pawb. Nid yn unig hynny – mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd o wneud y ddinas yn lle da i ymweld ag ef eto, er gwaethaf unrhyw gyfyngiadau y byddai'n rhaid eu gosod.

"Yn amlwg bydd gan lawer o bobl bryderon o hyd pan gaiff y cyfyngiadau eu codi, felly rydym am wneud yn siŵr pan fydd pobl yn meddwl am Gaerdydd eu bod yn meddwl 'ie, rwy'n gwybod ei fod yn lle diogel i ymweld ag ef, yn ddiogel i siopa, yn ddiogel i wneud busnes ac mae'n ddiogel i mi a'm teulu fod yno.' Byddwn yn gweithio gydag arbenigwyr yn y maes, gan ymgynghori â busnesau a thrigolion sy'n byw yng nghanol y ddinas. Y dull 'Un Ddinas' hwn fydd yn ein galluogi i Ailgychwyn, Adfer ac Adnewyddu Caerdydd. Rwy'n benderfynol na fyddwn yn colli'r cyfleoedd a

allai godi o hyn. Rydym oll eisiau dinas ddiogelach, wyrddach, lanach ac iachach, un a fydd yn gynaliadwy yn y tymor hir.

"Bydd hyn i gyd yn costio arian a dyna pam y byddwn yn dechrau trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar sut y gellir ariannu'r gwaith. Caerdydd yw curiad calon economaidd Cymru. Ni ellir gadael y ddinas yn brwydro am ei heinioes. Bydd angen i'n cynlluniau gael cefnogaeth lawn os ydym am godi'r ddinas ar ei thraed unwaith eto er lles pawb sy'n byw ac yn gweithio yma ac yn y ddinas-ranbarth."

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23984.html

Ailddechrau'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus ar gyfer rhai eitemau yn unig

Mae'r gwasanaeth casglu deunydd swmpus yn dychwelyd ar gyfer eitemau cyfyngedig heddiw.

Gofynnwn i breswylwyr drefnu casgliad dim ond ar gyfer eitemau sy'n achosi anawsterau gwirioneddol i chi eu storio gartref.

Mae'r casgliad gwastraff swmpus ar gyfer eitemau mwy, na fyddech yn gallu eu ffitio yng nghist eich car i ddod â nhw i'n canolfannau ailgylchu yn Ffordd Lamby neu Glos Bessemer.

Nid ydym yn codi tâl am gasglu eitemau y gellir eu hailgylchu'n llawn:

- ✓ Bwrddn bwyta pren neu silff lyfrau
- ✓ Ffrâm gwely metel neu uned silffoedd
- ✓ Offer trydanol mawr fel oergell neu beiriant golchi
- ✓ Carpedi
- ✓ Fframiau a ffenestri UPVC
- ✓ Matresi sbring (codir tâl am ewyn cof)

Rydym yn codi tâl am gasglu eitemau a wneir o gymysgedd o wahanol ddeunyddiau:

- ✓ Soffas a chadeiriau breichiau
- ✓ Gwaelod gwelyau difán
- ✓ Matresi ewyn cof (mae matresi sbring am ddim)
- ✓ Dodrefn wedi eu gwneud o gymysgedd o ddeunyddiau megis cwpwrdd pren gyda drysau gwydr

Ni allwn gasglu rhai eitemau, gan gynnwys:

x Asbestos
x Gwydr ffeibr
x Deunyddiau adeiladu a gwastraff adeiladu, megis bwrdd plastr neu ddeunydd inswleiddio

x Darnau car neu injan
x Eitemau haearn bwrw
x Cemegolion megis tynnwr paent
x Tiwbiau fflworolau
x Poteli neu duniau nwy
x Olew (injan neu goginio)
x Tuniau paent
x Teiars
x Pianos
x Gwastraff gardd

Gallwch archebu casgliad drwy gysylltu â C2C ar (029) 2087 2088. Mae ein sianeli cyfryngau cymdeithasol hefyd yn gallu trefnu casgliadau ar eich rhan, **dim ond ar gyfer eitemau sydd am ddim-** #cwestiwncyflymcaerdydd. Bydd y tîm yn gofyn i chi am yr holl wybodaeth sydd ei hangen mewn neges uniongyrchol.

Os oes angen i chi archebu casgliad yn gynt na'r dyddiad nesaf sydd ar gael, mae gan ein tîm Gwasanaethau Masnachol nifer o opsiynau y codir tâl amdanynt.

Gallant gasglu un eitem neu gallwch logi sgip. Cysylltwch â GwasanaethauMasnachol@caerdydd.gov.uk am ddyfynbris am ddim heb rwymedigaeth.

Sylwer **na fyddwn yn casglu os oes gennych chi, neu rywun yn eich cartref, symptomau COVID-19**.

Ewch i caerdydd.gov.uk/gwastraffswmpus i gael rhagor o wybodaeth.

Wythnos Gwirfoddolwyr: Amser dweud diolch

Yr wythnos hon, rydyn ni'n dathlu gwirfoddolwyr o bob rhan o Gaerdydd, gan gynnwys criw Gyda'n gilydd dros Gaerdydd sy'n 1,200 o bobl, a ddaeth i lenwi'r bwlch pan oedd angen ar y ddinas.

Yn ystod dathliadau Wythnos Gwirfoddolwyr (Mehefin 1-7) yr wythnos hon, mae'r Cyngor yn achub ar y cyfle i ddangos diolchgarwch i bawb a wirfoddolodd, yn arbennig i'r bobl hynny a helpodd gydag ymdrechion y ddinas i ofalu am y bobl sy'n agored i niwed a'r rheiny oedd mewn angen yn ystod y cyfnod cloi.

Sefydlwyd y cynllun Gyda'n Gilydd dros Gaerdydd gan y Cyngor ar ddechrau'r argyfwng COVID-19 ac ymatebodd llu o drigolion ar draws y ddinas i helpu eraill yn ystod yr adeg anodd hon.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cynghorydd Lynda Thorne: "Eleni, mae Wythnos Gwirfoddolwyr yn digwydd mewn adeg argyfyngus, pan fo pandemig byd-eang wedi effeithio ar fywydau unigolion a chymunedau, pan ddaeth cymdogion, aelodau'r gymuned a gwirfoddolwyr lleol yn bwysicach nag erioed yn cefnogi y bobl hynny sydd mewn angen.

“Felly mae hi’n bwysicach nag erioed cydnabod cyfraniad gwirfoddolwyr yn ystod yr argyfwng hon a’u cyfraniad bob dydd yn ein dinas. Diolch. Rydych chi yn gwneud gwaith anhygoel a rydyn ni’n hynod falch ohono.”

Erbyn hyn, mae mwy na 1,200 o bobl wedi eu cofrestru gyda chynllun Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd sy’n gweithredu fel gwasanaeth brocera, yn paru pobl sydd eisiau helpu gyda chyfleoedd gwirfoddoli ledled y ddinas, gan gynnwys cymorth i dimau’r cyngor ddarparu gwasanaethau hanfodol i’r bobl hynny sydd mewn angen.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23980.html